



# Cynllun Datblygu Lleol 2021 > 2036

Cyngor Caerdydd - Mai 2026

## Arholiad CDLI Newydd Caerdydd

Sesiwn Gwrandawriad 10  
Llifogydd

Datganiad Cyngor HS10.01  
mewn Ymateb i Gwestiynau'r  
Arolygwyr yn ID08j



[www.cdllcaerdydd.co.uk](http://www.cdllcaerdydd.co.uk)



02920 872087



[CDL@caerdydd.gov.uk](mailto:CDL@caerdydd.gov.uk)

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/  
This document is available in English



**Cyngor Caerdydd**  
**Cynllun Datblygu Lleol Newydd**  
**Archwiliad**

---

**Sesiwn Gwrandawriad 10 – 09.30 – 13.00, 18 Mehefin 2026**

**Rhithwir**

**Llifogydd**

**Mater - A yw strategaeth a dyraniadau'r CDLI yn gadarn o ran perygl llifogydd, o ystyried TAN 15.**

**Mae'r Cyngor wedi addo Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol (ACLIS) wedi'i ddiweddarau erbyn dechrau mis Ebrill (CD01). Yn amodol ar gasgliadau'r ACLIS wedi'i ddiweddarau ac ymateb CNC, mae'n debygol y bydd yr agenda hon yn cael ei diwygio/ehangu.**

**1. Agor a chyflwyniadau**

**2. A yw strategaeth a dyraniadau'r CDLI yn cyd-fynd ag egwyddorion Nodyn Cyngor Technegol (TAN) 15 Datblygu, llifogydd ac erydu arfordirol?**

**Ymateb:**

Mae'r Cyngor yn cadarnhau bod y Cynllun yn cyd-fynd ag egwyddorion Nodyn Cyngor Technegol 15: Datblygu, Llifogydd ac Erydu Arfordirol. Mae TAN 15 yn gofyn am ddull sy'n seiliedig ar risg ac wedi'i lywio gan gynllun sy'n osgoi gosod datblygiad newydd mewn ardaloedd sydd â'r risg uchaf o lifogydd ac erydu arfordirol, yn cyfiawnhau unrhyw ddatblygiad y mae'n rhaid iddo ddigwydd mewn ardaloedd risg, ac yn sicrhau bod canlyniadau'n dderbyniol dros oes y datblygiad, gan ystyried newid yn yr hinsawdd.

Mae'r strategaeth ofodol yn dangos bod perygl llifogydd wedi ei drin fel cyfyngiad strategol. Mae twf wedi'i gyfeirio'n bennaf at ardaloedd trefol presennol a lleoliadau risg is, yn unol â dull dilyniannol, osgoi yn gyntaf TAN 15. Mae'r Cyngor wedi paratoi Asesiad Canlyniadau Llifogydd Strategol (ACLIS) wedi'i ddiweddarau ac wedi defnyddio'r Map Llifogydd ar gyfer Cynllunio i lywio dewis safleoedd.

Pan fo dyraniadau yn dod o fewn ardaloedd amddiffynedig neu risg weddilliol, mae'r cynllun yn darparu cyfiawnhad sy'n gyson â TAN 15: mae'r safleoedd hyn yn cefnogi cyflawni'r strategaeth gyffredinol, nid oes unrhyw ddewisiadau amgen mwy diogel ar gael yn rhesymol, ac mae mesurau lliniaru wedi'u nodi. Mae polisïau yn gofyn am Asesiadau Canlyniadau Llifogydd safle-benodol, dyluniad gwydn, draenio cynaliadwy, a mynedfa / allanfa ddiogel, gan sicrhau y gellir rheoli canlyniadau mewn modd derbyniol yn unol â phroffion TAN 15.

I gloi, mae strategaeth a dyraniadau'r Cynllun yn gyson â TAN 15, gan fod perygl llifogydd ac erydu arfordirol wedi siapio'r strategaeth ofodol yn glir, ac mae cyfiawnhad a fframwaith lliniaru cadarn ar waith fel y dangosir gan y diweddariad ACLIS.

### **3. Newidiadau i Faterion sy'n Codi**

### **4. Camau Gweithredu**